Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Disgrifiad Swydd: Swyddog Cyfathrebu a Digwyddiadau

**Trosolwg**
Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff strategol sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru. Ei genhadaeth yw rhoi cymorth i ddatblygu diwydiant cig coch yng Nghymru sy'n broffidiol, effeithlon, cynaliadwy ac arloesol ac sy'n ymateb yn gystadleuol i dueddiadau newidiol y farchnad. Mae gan y sefydliad oddeutu 25 o staff yn y corff cychwynnol, ynghyd â 25–30 arall a gyflogir gan ein his-gwmni. Mae'r naill a'r llall yn gweithredu'n ddwyieithog ac mewn partneriaeth glos â rhanddeiliaid ar draws y sectorau bwyd a pholisi cyhoeddus. Fel corff cyhoeddus Cymreig, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a'r iaith Gymraeg, ac i gynnal y safonau uchaf o ran llywodraethiant, lles y gweithlu a diwylliant sefydliadol.

**Trosolwg o'r swydd**
Drwy adrodd i'r Pennaeth Gweithrediadau a Materion Allanol a gwasanaethu fel aelod allweddol o'r tîm cyfathrebu a materion allanol, mae'r swydd hon yn darparu cefnogaeth ar draws y sefydliad ar bopeth sy'n ymwneud â chyfathrebu, digwyddiadau a materion allanol. Fel rhan o dîm, mae deiliad y swydd yn gyfrifol am sicrhau bod blaenoriaethau strategol y sefydliad yn cael eu cefnogi gan gyfathrebu effeithiol, digwyddiadau a gweithgaredd materion allanol ehangach. Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad, mae'r rôl yn sicrhau bod prosiectau/rhaglenni unigol gan HCC yn cael eu cefnogi a'u cyfathrebu'n dda, ynghyd ag enw da'r sefydliad yn ehangach ymhlith rhanddeiliaid allweddol, cwsmeriaid ac aelodau'r cyhoedd.

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

**Cyfathrebu a chysylltiadau cyfryngol**
- Cynorthwyo gyda gweithgaredd cyfathrebu HCC, gan sicrhau negesau clir, cyson ac amserol i gynulleidfaoedd allanol a rhanddeiliaid.
- Fel rhan o dîm, cymryd cyfrifoldeb am ddiweddaru sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol HCC â newyddion, cyhoeddiadau a diweddariadau am y sefydliad.
- Gwneud yn siŵr fod yr holl gyfathrebu corfforaethol yn gywir, yn unol â'r brand ac yn cyd-fynd â'r negesau a'r blaenoriaethau sefydliadol a gytunwyd.

- Monitro gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol corfforaethol a chefnogi ymgysylltiad effeithiol trwy uwchgyfeirio materion, cyfleoedd neu ymholiadau yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo i gydlynu a chyflwyno gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau, gan weithio gyda chydweithwyr a phartneriaid i gefnogi cynrychiolaeth allanol gadarnhaol o HCC.

**Cefnogi digwyddiadau**

- Cefnogi cynllunio, trefnu a chyflwyno digwyddiadau dan arweiniad HCC a phartneriaid, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr mewnol a rhanddeiliaid allanol.
- Cynorthwyo o ran cydlynu digwyddiadau, logisteg a chyfrannu ar y diwrnod i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cyflwyno'n broffesiynol ac yn effeithiol.
- Mynychu digwyddiadau yn ôl yr angen i gefnogi gweithgaredd cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a meithrin perthynas.
- Cyfrannu at gyfathrebu sy'n gysylltiedig â digwyddiadau, gan gynnwys hyrwyddo, cefnogaeth ar y diwrnod a gweithgaredd ar ôl y digwyddiad.

**Cysylltiadau allanol ehangach**

- Cynorthwyo gweithgaredd cysylltiadau allanol ehangach trwy gydweithio â thimau mewnol a phartneriaid allanol ar fentrau ar y cyd, partneriaethau a chyfleoedd ymgysylltu.
- Cyfrannu, ar y cyd â phartneriaid allanol, at brosiectau a digwyddiadau cydweithredol sy'n cefnogi amcanion ehangach HCC.
- Cynorthwyo i gynnal perthynas gadarnhaol â rhanddeiliaid allanol, a bod yn bwynt cyswlltpan fo hynny'n briodol.
- Gweithio'n hyblyg gyda thimau i gefnogi prosiectau a gweithgareddau ad-hoc sy'n cyfrannu at broffil ac ymgysylltiad allanol HCC.

## Gwybodaeth a Sgiliau

| Ffactor | Meini prawf hanfodol | Meini prawf manteisiol |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | Y gallu i gyfathrebu (ysgrifenedig a llafar) drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ymwybyddiaeth o ddisgyblaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwybodaeth ymarferol dda am gyfathrebu, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol a sianeli allanol eraill i gyfleu negesau sefydliadol.<br><br>Profiad gwaith blaenorol o swyddogaeth cyfathrebu wrth gynnal enw da'r sefydliad, ymgysylltu â rhanddeiliaid a phroffil allanol.<br><br>Ymwybyddiaeth o sut mae digwyddiadau'n cael eu defnyddio er mwyn cyfathrebu ac ymgysylltu, gan gynnwys hyrwyddo a chefnogaeth ar y diwrnod.<br><br>Dealltwriaeth o gysondeb brand, goslef llais a phwysigrwydd cyfathrebu cywir ac amserol. | cyfathrebu ehangach megis cysylltiadau cyfryngol, cyfathrebu digidol neu gyflwyno ymgyrchoedd.<br><br>Gwybodaeth am sector bwyd-amaeth Cymru neu ddiwydiannau cysylltiedig, gan gynnwys rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd allweddol.<br><br>Dealltwriaeth o weithio o fewn sefydliad hyd-braich, sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus, neu sy'n seiliedig ar aelodaeth. |
| | | |
| **Sgiliau a Phrofiad** | Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig cryf, gyda'r gallu i gynhyrchu cynnwys clir, cywir a deniadol ar gyfer cynulleidfaoedd allanol.<br><br>Y gallu i ddiweddaru a rheoli sianeli cyfryngau cymdeithasol mewn modd broffesiynol ac amserol. | Y gallu i addasu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd neu sianeli gwahanol, gan gynnwys cyfathrebu â rhanddeiliaid neu bartneriaid. |

| | | |
|---|---|---|
| | Sgiliau trefnu da, a'r gallu i gefnogi digwyddiadau, gweithgareddau cyfathrebu a blaenoriaethau lluosog ar yr un pryd. | Profiad o gefnogi gweithgareddau cyfryngol neu weithio gyda newyddiadurwyr.<br><br>Hyder wrth gynrychioli sefydliad mewn digwyddiadau neu gyfarfodydd allanol.<br><br>Sgiliau iaith Gymraeg (llafar a/neu ysgrifenedig). |
| | | |
| **Nodweddion Personol** | Adroddwr straeon pwerus gydag angerdd dros feithrin cymunedau ar-lein.<br><br>Yn amryddawn ac yn ffynnu ar amldasgio pan fo amser yn brin.<br><br>Y gallu i weithio'n annibynnol a hefyd fel rhan o dîm.<br><br>Meddyliwr strategol â dawn greadigol.<br><br>Yn barod i ddysgu mewn amgylchedd cyfathrebu digidol cyflym. | Angerdd dros gefnogi diwydiant cig coch Cymru a'i gadwyn gyflenwi.<br><br>Meddwl yn greadigol i gynnig atebion unigryw.<br><br>Yn cyffroi gan gyfleoedd a heriau newydd. |